# Camfanteisio Troseddol ar Blant

## Offeryn Asesu



Nina Maxwell

Gorffennaf 2022

# Cyflwyniad

Datblygwyd yr Offeryn Asesu Camfanteisio Troseddol ar Blant fel rhan o astudiaeth a ariannwyd gan Ymchwil Gofal Iechyd Cymru i gamfanteisio troseddol ar blant yng Nghymru (Maxwell a Wallace, 2021). Edrychodd yr astudiaeth ar sut roedd pobl ifanc yn cael eu targedu, eu meithrin a chamfanteisio'n droseddol arnynt yng Nghymru a'r hyn y mae angen i wasanaethau ei wneud i adnabod pobl ifanc y mae perygl y camfanteirir yn droseddol arnynt, ymgysylltu â nhw a'u diogelu. I wneud hyn, gofynnwyd i bobl ifanc, i rieni ac i ymarferwyr â phrofiad uniongyrchol am eu profiadau o gamfanteisio troseddol a pha ddulliau ac ymyriadau oedd fwyaf defnyddiol. Defnyddiwyd y canlyniadau i gyd-gynhyrchu pecyn cymorth gyda'r nod o wella ymatebion ymarferwyr i gamfanteisio'n droseddol ar blant (Maxwell et al., 2022). Mae'r offeryn asesu hwn yn rhan o'r pecyn cymorth.

## Nodau

Mae'r Offeryn Asesu Camfanteisio'n Droseddol ar Blant wedi'i anelu at helpu ymarferwyr i gofnodi eu pryderon pan fydd amheuaeth bod camfanteisio'n droseddol ar blant yn digwydd. Dylid ei ddefnyddio fel rhan o ymagwedd barhaus tuag at recordio, asesu a monitro risg i'r person ifanc. Fe'i datblygwyd gan gyfeirio at ganfyddiadau astudiaethau, a'r llenyddiaeth ymchwil ehangach, gan gynnwys Pecyn Arwyddion a Dangosyddion y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (2021).

Mae'r offeryn asesu'n ategu'r dirwedd polisi a chanllawiau ymarfer yng Nghymru. Yn sail iddo y mae'r angen sylfaenol i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n seiliedig ar hawliau plant ac yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, gan gynnwys canllawiau sy'n ymwneud â diogelu plant sy'n mynd ar goll, plant a allai gael eu masnachu, camfanteisio'n rhywiol ar blant a chamfanteisio'n droseddol ar blant.

Dylai'r Pecyn Asesu Camfanteisio Troseddol ar Blant gael ei lenwi gan yr ymarferydd arweiniol gyda mewnbwn gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r person ifanc. Ceir amrywiaeth o resymau pam mae pobl ifanc yn amharod neu'n anfodlon datgelu camfanteisio troseddol, gan gynnwys ofn ôl-effeithiau gan y bobl sy'n camfanteisio arnynt a/neu ofn ymatebion ymarferwyr megis cael eu troseddoli neu brosesau diogelu. Mae'n bosibl nad yw pobl ifanc yn credu bod rhywun yn camfanteisio'n droseddol arnynt. Felly, gall fod yn anodd nodi camfanteisio troseddol ar blant. Nid oes rhestr wirio benodol o arwyddion rhybudd na dangosyddion penodol. Gall rhai pobl ifanc sy'n profi niwed difrifol gyflwyno lefelau cymharol isel o bryder ar y dechrau. Gall y risg o niwed amrywio, a gall gymryd wythnosau lawer i feithrin ymddiriedaeth a sefydlu cydberthynas cyn nodi graddau llawn y risgiau. Bydd gwahanol asiantaethau yn cadw gwybodaeth wahanol am y person ifanc. Mae'r offeryn asesu hwn yn darparu dull o gofnodi'r hyn sy'n hysbys am berson ifanc yr amheuir ei fod yn destun camfanteisio troseddol mewn perthynas â'i:

- Gwybodaeth gefndirol:
- Bregusrwyddau presennol ar lefel unigol.
- Bregusrwyddau presennol ar y lefel ryngbersonol.
- Newidiadau mewn ymddygiad gartref.
- Newidiadau mewn ymddygiad mewn lleoliad addysg.
- Dangosyddion gweladwy o gamfanteisio troseddol ar blant.

- Ffactorau risg cymunedol.

Mae'r pecyn asesu yn darparu ffordd o gofnodi pryderon sy'n dod i'r amlwg fel rhan o sgwrs barhaus gyda phobl ifanc, eu rhieni ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r person ifanc. Dylid ei ddefnyddio fel ffordd o goladu'r hyn sy'n hysbys am y person ifanc er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar y lefel aml-asiantaeth. Wrth wneud hynny, dylai'r offeryn asesu hysbysu ymarferwyr am bryderon sy'n bodoli eisoes, lle y mae angen mwy o wybodaeth a sbarduno trafodaethau fel y camau mwyaf priodol i ddiogelu'r person ifanc.

# Gwybodaeth gefndirol

## Am y person ifanc

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Dyddiad geni: | |
| Oedran: | |
| Rhyw: | |
| Ethnigrwydd: | |
| Anabledd: | |
| Ble mae'r person ifanc yn byw a gyda phwy mae'n byw: | |
| Addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant | |
| Asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r person ifanc: | |

## Manylion yr ymarferydd

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Rôl: | |
| Dyddiad y dechreuodd weithio gyda'r person ifanc: | |

# Bregusrwyddau presennol: Lefel unigol

**Gall gwybodaeth hanesyddol a chefndirol am y person ifanc fod yn fwy agored i gamfanteisio'n droseddol ar blant gan gynnwys yr '8 risg ar lefel yr unigolyn' (gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth).**

**Oedran:** Yn nodweddiadol 13-18 ond gall amrywio o blant ifanc 7 oed neu iau i 25 oed.

| |
|---|
| |

**Camdriniaeth:** Hanes o gamdriniaeth gorfforol, rywiol neu emosiynol.

| |
|---|
| |

**Anghenion ychwanegol:** Gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi cael diagnosis a heb eu diagnosio. Anawsterau gwneud ffrindiau, ymddiried yn ormodol, hawdd eu perswadio, naïf.

| |
|---|
| |

**Wedi cael llety:** Pobl ifanc sy'n derbyn gofal (yn awr neu'n hanesyddol), y rhai mewn hosteli neu sy'n cael eu lletya ar ôl i ofal maeth neu deulu chwalu, neu geiswyr lloches ar eu pen eu hunain.

| |
|---|
| |

**Awdurdodol:** Magu plant mewn modd haearnaidd neu lai o ryddid (rhieni, gofalwyr neu'r awdurdod lleol).

| |
|---|
| |

**Wedi'i ddieithrio:** Yn unig, ynysig, hunan-barch isel, hyder isel, cyfalaf cymdeithasol isel.

| |
|---|
| |

**Addasol:** Targedu plant cudd (ghost children), e.e. merched, pobl leol, cyflawnwyr uchel, myfyrwyr cefnog, coleg neu brifysgol.

| |
|---|
| |

**Oedolyneiddio:** Pobl ifanc y canfyddir eu bod yn fwy aeddfed na'u cyfoedion, e.e. pobl ifanc dduon, pobl sydd â phrofiad o ofal ac ati.

# Arwyddion rhybuddio: Lefel unigol

**Cyfnodau o fynd ar goll:** Cyfnodau o fynd ar goll yn aml heb esboniad amdanynt, sy'n amrywio o oriau i ddyddiau neu wythnosau. Efallai y bydd y person ifanc yn mynd ar goll yn ystod y dydd neu dros nos.

**Gwahardd o'r ysgol:** Cael ei wahardd o'r ysgol naill ai am gyfnod dros dro, yn barhaol neu'n wirfoddol.

**Arian:** Mae gan y person ifanc arian na ellir rhoi esboniad amdano. Mae'n bosibl y bydd yn rhoi esboniadau amwys neu annhebygol.

**Ffonau symudol:** Bod â nifer o ffonau symudol, gan gynnwys ffonau llosgwr (ffonau rhad, a dalwyd amdanynt o flaen llaw). Angen mynd allan cyn gynted ag y bydd yn derbyn galwad neu neges.

# Bregusrwyddau presennol: Lefel ryngbersonol

**Mae bod yn agored i niwed ar y lefel ryngbersonol yn cynnwys ffactorau risg allanol sy'n effeithio ar y gallu i fagu plant, yr heriau sy'n gysylltiedig â magu plant yn eu harddegau, risg sy'n deillio o anghenion rhieni heb eu diwallu a risg ar lefel teulu estynedig. Mae'n bosibl y byd rhieni'n gwrthod cael unrhyw beth i'w wneud gydag ymarferwyr rhag ofn y bydd yn arwain at fwy o drais yn erbyn eu plentyn neu yn eu herbyn hwythau eu hunain.**

**Ffactorau allanol:** Rhieni yn gwahanu, marwolaeth rhiant neu frawd neu chwaer, tlodi a/neu rieni yn gorfod gweithio oriau hir, nifer o swyddi ac ati.

| |
|---|
| |

**Anghenion rhieni heb eu diwallu:** Materion iechyd meddwl rhieni, rhieni yn camddefnyddio sylweddau, trais domestig.

| |
|---|
| |

**Heriau magu plant:** Llai o ddylanwad rhieni dros y glasoed, anawsterau wrth gynnal ffiniau, mwy o ddylanwad gan gyfoedion.

| |
|---|
| |

**Dulliau magu plant:** Dull awdurdodaidd neu ddiffyg goruchwyliaeth, diffyg perthynas rhwng y rhieni a'r plentyn.

| |
|---|
| |

**Brodyr a chwiorydd sy'n destun camfanteisio troseddol:** Brodyr a chwiorydd neu berthnasau eraill sydd wedi bod yn destun camfanteisio troseddol.

| |
|---|
| |

**Troseddau teuluol:** Mae gan rieni, brodyr a chwiorydd neu berthnasau eraill hanes o droseddu.

| |
|---|
| |

**Ofni camfanteiswyr:** Gall ymddangos bod rhieni'n ofnus, yn amharod i ymgysylltu ag ymarferwyr a/neu'n amharod i hysbysu ymarferwyr pan fydd person ifanc yn mynd ar goll.

# Arwyddion rhybuddio: Newidiadau mewn ymddygiad gartref

**Gall ymddygiad a pherthnasoedd y person ifanc newid. Ar y llaw arall, gall barhau i fod â pherthynas dda â'i rieni a'i frodyr a chwiorydd ond bydd yn gyfrinachol neu'n annelwig ynghylch ei weithgareddau y tu allan i'r cartref. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn honni mai diben eu distawrwydd yw amddiffyn eu teulu.**

**Newid mewn ymddygiad:** Aros allan yn hwyr, colli ysgol, peidio â gwneud hobïau, gweithgareddau hamdden, newidiadau mewn grwpiau cyfoedion.

| |
|---|
| |

**Rhedeg i ffwrdd:** Yn aml bydd yn diflannu trwy'r dydd neu dros nos am ddyddiau/wythnosau. Amwys am ble maen nhw wedi bod a gyda phwy maen nhw wedi bod.

| |
|---|
| |

**Newidiadau mewn perthnasoedd â'r teulu:** Ymddieithrio, ymosodol, cyfrinachol, esboniadau amwys yn cael eu rhoi o ran lleoliad, cyfoedion a/neu weithgareddau.

| |
|---|
| |

**Anonestrwydd neu esboniadau amwys**: Mae'n dweud celwyddau, neu'n gyfrinachol pan ofynnir am eiddo newydd, ble y mae, ymddygiad a/neu gyfoedion. Mae'n gwrthod siarad am weithgareddau neu esbonio gweithredoedd. Mae'n bosibl y bydd yn sleifio allan yn y nos a/neu yn gwadu gadael y tŷ yn y nos.

| |
|---|
| |

**Pŵer a rheoli:** Ymddengys ei fod yn cael ei reoli gan bobl ifanc hŷn, e.e. galwadau ffôn neu negeseuon testun. Fel arall, gall pobl ifanc ymddangos yn rhy hyderus.

| |
|---|
| |

**Lles emosiynol:** Nerfus, encilgar, ofnus neu bryderus, anawsterau cysgu, hunllefau. Yn or-wyliadwrus ac yn bryderus am y bobl o'u cwmpas yn y gymuned ehangach.

| |
|---|
| |

**Trwytho:** Yn gwrthod credu bod rhieni yn eu caru, yn dweud bod rhieni, athrawon ac oedolion eraill yn eu herbyn. Honni mai dim ond y bobl ifanc newydd sy'n poeni amdanyn nhw a'u bod nhw'n 'deulu newydd'.

# Arwyddion rhybuddio: Lleoliad addysg

**Gall ymarferwyr addysg sylwi ar y person ifanc yng nghwmni pobl ifanc yr amheuir neu y gwyddys eu bod yn profi camfanteisio troseddol neu eu bod yn 'ddioddefwyr gamfanteisio' lle y cânt eu perswadio, eu gorfodi neu eu cymell i gamfanteisio'n droseddol ar bobl ifanc eraill.**

**Ymddieithrio:** Absenoldebau newydd neu gynyddol o leoliadau addysg, yn enwedig lle'r oedd pobl ifanc yn ymgysylltu o'r blaen. Tynnu allan o'r ysgol a/neu staff addysgu a gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol.

**Newidiadau mewn grŵp cydnabod/cydoedion:** Gall athrawon sylwi ar newidiadau mewn grwpiau cydnabod/cyfoedion, yn enwedig gyda chyfoedion hŷn a/neu gyn-ddisgyblion neu fyfyrwyr. Ymwneud â chyfoedion y gwyddys eu bod yn agored i niwed a/neu yn profi camfanteisio troseddol.

**Ymddygiadau aflonyddgar:** Actio allan, herio staff addysgu, a/neu awdurdod.

**Ymddygiadau ymosodol:** Ymddygiad ymosodol tuag at athrawon a/neu gyfoedion, gall ymateb yn negyddol i athrawon, ffiniau a/neu fod yn amharod i ymgysylltu â staff addysgu.

**Ymddygiadau amgen:** Gall newid ymddygiad fel bod pobl ifanc a oedd yn ansefydlog o'r blaen yn ymddwyn yn dda er mwyn osgoi tynnu sylw atynt eu hunain neu gall pobl ifanc dawel fynd yn or-hyderus neu drahaus.

**Lles emosiynol (ysgol):** Yn nerfus, yn bryderus neu'n ofnus. Gall ymddangos yn ofnus o rai lleoedd neu bobl.

| |
|---|
| |

**Ymddygiadau eraill:** Gall pobl ifanc ymddangos yn anniben, yn flinedig neu'n encilgar. Gallant gyrraedd yn hwyr yn gyson i'r lleoliad addysg a/neu'r dosbarth.

| |
|---|
| |

**Arian neu eiddo:** Gall fod ag arian neu eiddo sy'n ymddangos y tu hwnt i'w modd ariannol.

| |
|---|
| |

# Arwyddion rhybuddio: Dangosyddion gweladwy

**Mae dangosyddion gweladwy yn cynnwys eitemau diriaethol fel esgidiau hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw diffyg cyfnewid corfforol yn golygu nad yw person ifanc yn destun camfanteisio troseddol.**

**Eitemau materol:** Eiddo newydd, fel esgidiau hyfforddi, ffonau symudol lluosog, dillad, beiciau ac ati nad yw rhieni wedi'u prynu neu sy'n ymddangos y tu hwnt i allu ariannol person ifanc.

**Anafiadau anesboniadwy:** Cleisiau, llosgiadau, anafiadau i'r pen/pennau tost parhaus, ewinedd yn eisiau. Mae'r person ifanc yn rhoi esboniadau amwys am anafiadau neu 'ddim yn gallu cofio'.

**Tystiolaeth o blygio** (storio cyffuriau y tu mewn i'r bochau, y fagina neu'r anws): Mae gan y plentyn Vaseline, wyau kinder, menig latecs, balwnau. Mae'n bosibl y bydd gwaed a/neu ôl iro ar y dillad isaf neu ar gynfasau'r gwely. Mae bechgyn yn gallu bod yn gyndyn cyfaddef eu bod wedi cael ei gorfodi i blygio.

**Anafiadau sy'n gysylltiedig â phlygio:** Anafiadau i'r fagina neu anws. Efallai y byddant yn cael anhawster wrth ddefnyddio'r toiled. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn cael eu dala i lawr tra bod pobl ifainc hŷn yn rhoi cyffuriau ynddynt neu yn eu cymryd allan ohonynt.

**Anafiadau oherwydd cam-drin rhywiol/ymosodiadau rhywiol:** Anafiadau i'r pidyn, y fagina neu'r anws, gan gynnwys gwaedu neu redlif (hylif yn rhedeg allan). Mae camdriniaeth rywiol yn cael ei defnyddio fel dull rheoli.

**Hunan-niwedio**: Gan gynnwys anafiadau sy'n cael eu hachosi pan fydd person ifanc yn ei fwrw ei hunan. Gall hyn fod yn arwydd y bydd trais mwy difrifol ar ddod.

**Gofal personol:** Gan gynnwys diffyg diddordeb mewn hunanofal. Dychwelyd adref mewn dillad brwnt ar ôl bod ar goll a heb fwyta ers dyddiau neu wythnosau.

**Defnydd canabis:** Defnyddio canabis am y tro cyntaf neu yn ei ddefnyddio yn fwy, mewn cydweithrediad â dangosyddion gweladwy eraill. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc yn cael eu hannog i ddefnyddio canabis neu i ddefnyddio mwy ohono er mwyn eu twyllo i fod mewn dyled ariannol i gamfanteiswyr (caethiwed dyled)

# Ffactorau risg cymunedol

**Gweithgareddau amheus:** Mae'r person ifanc wedi cael ei weld yn mynd i mewn i geir, i leoedd neu i gyfeiriadau penodol ac yn dod allan ohonynt, mae'r ceir a lleoedd hyn yn awgrymu bod cysylltiad â chamfanteisio troseddol.

**Cyfeiriadau amheus:** Cafodd y person ifanc ei weld neu daethpwyd o hyd iddo mewn tŷ maglu (trap house) neu gerbyd maglu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau troseddol.

**Cyfoedion:** Mae'r person ifanc wedi dweud ei fod yn adnabod cyfoedion y mae'n hysbys eu bod yn cael eu camfanteisio'n droseddol neu cawsant eu gweld gyda hwy.

**Camfanteiswyr/dioddefwyr i gamfanteiswyr** Mae'r person ifanc wedi dweud ei fod yn adnabod cyfoedion neu oedolion yr amheuir eu bod yn camfanteisio'n droseddol ar bobl ifanc neu maent wedi cael eu gweld gyda hwy.

**Oedolion hŷn:** Ymwneud ag oedolion sydd newydd gael eu rhyddhau o'r carchar.

**Meithrin perthynas amhriodol:** Mae pobl yn mynd â'r person ifanc allan am ddyddiau, yn prynu bwyd iddo neu mae'n honni bod pobl ifainc eraill yn gofalu amdano. Gall hyn gynnwys pobl yn rhoi arian, eiddo neu rywle i dreulio eu hamser rhydd iddo.

**Rhyddid cyfyngedig:** Mae'n ymddangos bod cyfoedion hŷn yn atal neu'n cyfyngu ar symudiadau a/neu ryngweithio'r person ifanc ag eraill. Gall y person ifanc fod yn amlwg yn ofnus neu'n bryderus neu'n cael ei weld yn siarad ag ymarferwyr.

**Ardaloedd problemus:** Mae person ifanc wedi datgelu neu wedi cael ei weld mewn mannau problemus neu feysydd eraill lle y gwyddys bod pobl ifanc mewn perygl o gamfanteisio troseddol.

# Asesiad cyffredinol

**Dylai cwblhau'r offeryn asesu roi darlun cyffredinol o'r hyn sy'n digwydd i'r person ifanc mewn perthynas ag arwyddion posibl o gamfanteisio'n droseddol ar blant.**

**Crynodeb o'r dystiolaeth:** Defnyddiwch yr adran hon i grynhoi ac ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd.

# Y camau nesaf

Dylai'r ymarferydd arweiniol hefyd ystyried anghenion y person ifanc sydd heb eu diwallu a lefel y risg y tu hwnt i gamfanteisio troseddol ar blant. Mae'n rhaid i'r ymarferydd arweiniol sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei hystyried mewn perthynas â'r canlynol:

- Mae angen mesurau diogelu ar gyfer y person ifanc.
- Dylid atgyfeirio at y gwasanaethau plant.
- Mae digon o dystiolaeth ar gyfer atgyfeiriad Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.
- Bydd rhieni neu aelodau eraill o'r teulu mewn perygl os defnyddir mesurau diogelu ar gyfer y person ifanc.
- Mae'r person ifanc wedi dioddef trosedd a dylid hysbysu'r heddlu.
- Mae amheuaeth o gamfanteisio troseddol ond mae angen monitro pellach.
- Gellir rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill heb gynyddu'r risg i'r person ifanc a'i deulu.


Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio pa gamau y dylid eu cymryd i ddiogelu'r person ifanc. Ceir rhagor o wybodaeth am y pedwar prif gam gweithredu yn Atodiad 2.

## Cynllun gweithredu

Dylai'r ymarferydd arweiniol ddatblygu cynllun o **ba** gamau y dylid eu cymryd, **pwy** sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu a **phryd** y dylid cwblhau pob cam. Dylid gwneud pobl ifanc a rhieni yn ymwybodol o'r cynllun gweithredu a chael y cyfle i gyfrannu at yr hyn sydd yn y cynllun.

| |
|---|
| *y camau i'w cymryd;* |

# Atodiad 1: '8' ffactor risg lefel unigol




# Atodiad 2: Trosolwg o gamau gweithredu posibl

Gan ddibynnu ar ba ddarlun sy'n dod i'r amlwg trwy gwblhau'r offeryn asesu, dylid ystyried y camau gweithredu canlynol.

# Monitro pellach

Os nad oes digon o dystiolaeth ond bod amheuaeth o hyd o gamfanteisio'n droseddol ar blant, dylai'r ymarferydd arweiniol gael rhagor o wybodaeth gan y person ifanc, ei rieni neu ofalwyr ac ymarferwyr eraill. Dylid gwneud hyn mewn modd amserol oherwydd y gall y risg o niwed a achosir gan gamfanteisio troseddol ar blant newid yn gyflym.

# Cyfarfod Strategaeth Amlasiantaeth

Os oes tystiolaeth y gallai'r person ifanc fod ar drothwy camfanteisio'n droseddol ar blant, mae gan yr ymarferydd arweiniol ddyletswydd i adrodd am hyn o dan adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dylai'r ymarferydd arweiniol goladu gwybodaeth ar draws y partneriaid aml-asiantaeth fel y gellir cyflwyno adroddiad i'r Gwasanaethau Plant.

O dan adran 47 Deddf Plant 1989, mae'n rhaid cynnal cyfarfod strategaeth amlasiantaethol neu drafodaeth pan amheuir bod camfanteisio troseddol ar blant yn digwydd. Dylai asesiad adran 47 ystyried anghenion y person ifanc, gan gynnwys yr hyn sy'n bwysig i'r person ifanc a sut yr hoffai gyflawni'r pethau y mae am eu gwneud. Nod y cyfarfod yw rhannu gwybodaeth, nodi anghenion gofal a chymorth y person ifanc a datblygu cynllun i leihau'r risg o gamfanteisio. Dylai hyn fod ni waeth a yw'r person ifanc yn bodloni'r trothwyon gwasanaeth neu beidio.

Mae'r cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth yn cael ei arwain gan y Gwasanaethau Plant ac mae ymarferwyr sy'n adnabod y person ifanc ac sy'n gallu rhannu gwybodaeth am gamfanteisio yn dod iddo. Gall hyn gynnwys meddyg, yr heddlu, cynrychiolydd ysgol, y gwasanaeth prawf neu adsefydlu cymunedol, gwasanaeth troseddau ieuenctid, neu wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Mae'n rhaid bod o leiaf tair asiantaeth broffesiynol wahanol yn bresennol. Mae'n rhaid i bob asiantaeth gefnogi'r broses hon er mwyn hwyluso'r broses o adnabod yr ymarferwyr cywir yn brydlon.

Mae'n rhaid ystyried barn y person ifanc naill ai drwy Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol neu, lle y bo'n briodol, presenoldeb y person ifanc yn y gynhadledd. Dylai'r person ifanc ddeall pwrpas y gynhadledd, y bydd yn bresennol ynddo a chael ei gefnogi i baratoi ei gyfraniad. Dylai'r person ifanc gwrdd â chadeirydd y gynhadledd cyn y cyfarfod.

### Deilliannau

Dylai cyfarfodydd strategaeth asiantaeth aml-strategaeth arwain at gynhyrchu ymateb cydgysylltiedig ar draws asiantaethau. Dylai hyn gynnwys cynllun gweithredu clir gyda phrosesau yn eu lle i fonitro'r cynllun i sicrhau ei fod yn diwallu angen y person ifanc ac yn ei amddiffyn rhag camfanteisio troseddol ar blant.

Dylid ystyried cymhlethdodau camfanteisio troseddol ar blant a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar bobl ifanc ac ar eu teuluoedd. Bydd angen i'r cynllun gweithredu:

- Mynd i'r afael â holl anghenion gofal a chymorth y person ifanc.
- Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar blant
- Cynnwys y cyd-destun ehangach i'r person ifanc, nid dim ond yr ymddygiadau neu faterion gweladwy.
- Bod yn hawdd ei gyrchu

- Bod â strategaethau clir ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt, o bosibl, y derbyn neu'n gwybod eu bod yn profi camfanteisio troseddol ar blant.

Dylai'r cynllun gweithredu fod yn gydnaws â'r anghenion a nodir ar y ffurflen asesu.

## Anghenion gofal a chymorth

Os daw'r cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth i'r casgliad bod gan y person ifanc anghenion gofal a chymorth, ond nad yw'n cyrraedd trothwyon gwasanaeth, dylid cynnal asesiad llesiant. Dylai'r asesiad nodi anghenion gofal a chymorth y person ifanc. Dylid defnyddio'r asesiad i lywio datblygiad cynllun gofal a chymorth sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r anghenion hyn ac atal y risg i'r person ifanc rhag gwaethygu.

Mae'n rhaid i'r cynllun gweithredu gofal a chymorth fynd i'r afael â holl anghenion y person ifanc nad ydynt yn cael eu diwallu. Er enghraifft, efallai y bydd y cynllun gweithredu wedi'i anelu at gryfhau dylanwadau cadarnhaol ym mywyd y person ifanc, gan ailgysylltu a'u cefnogi i fynychu addysg a/neu eu cefnogi i fynychu gweithgareddau hamdden. Pan fo modd, dylid cynnwys dulliau teulu cyfan gan ystyried pa gymorth a chefnogaeth y gellir eu rhoi i rieni i ddatblygu eu gwytnwch. Dangosodd canfyddiadau ein hymchwil (Maxwell a Wallace, 2021) fod rhieni eisiau mwy o wybodaeth am gamfanteisio troseddol a chymorth i gynnal cysylltiad â'u plentyn i wrthweithio ymdrechion camfanteisio i droi meddyliau eu plant yn eu herbyn. Mae ymyriadau sy'n cynnwys rhieni fel rhan o'r ateb yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd uwch. Mae hyn yn awgrymu bod angen ymyriadau sy'n briodol ar gyfer y glasoed ac sy'n mynd i'r afael â risg y tu allan i'r cartref. Er enghraifft, y dull ymagwedd didrais (NVR) (Jakob, 2018), yn ymyriad a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gyfer pobl ifanc sy'n arddangos ymddygiadau dinistriol a niweidiol. Mae NVR yn dysgu amrywiaeth o dechnegau i rieni, megis dad-ddwysáu, mwy o bresenoldeb rhieni, ymatebion cadarn i weithredoedd o drais a chadarnhadau geiriol parhaus o ymrwymiad rhieni i'w plentyn:

## Cynllun gofal a chymorth

Os daw'r cyfarfod strategaeth aml-asiantaeth i'r casgliad y dylai'r person ifanc fod yn destun cynllun gofal a chymorth, dylai'r cynllun gael ei anelu at gadw'r person ifanc yn ddiogel ac atal camfanteisio troseddol pellach. Mae'n rhaid iddo gynnwys nodi gwasanaethau ac ymyriadau y gellir eu defnyddio i gefnogi'r person ifanc a'i ddargyfeirio oddi wrth y bobl sy'n camfanteisio arno, ar yr amod ei fod yn ddiogel gwneud hynny.

Dylai'r cynllun gofal a chymorth amlinellu pa gamau a gymerir, gan pwy ac erbyn pryd y cânt eu cwblhau. Dylai gynnwys y canlynol:

- Risgiau i'r plentyn neu berson ifanc a sut y bydd y cynllun yn ei amddiffyn.
- Canlyniadau tymor byr a thymor hir a sut bydd y canlyniadau yn lleihau'r risgiau i'r person ifanc.
- Pa gymorth, triniaeth neu therapi a ddarperir a phwy sy'n gyfrifol am wahanol gamau.
- Sut y bydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i werthuso a phwy sy'n gyfrifol am hyn.
- Amserlenni.

Dylai'r cynllun gofal a chymorth hefyd gefnogi'r teulu i gadw'r plentyn yn ddiogel a chefnogi ei lesiant. Mae'n rhaid iddo gael canlyniadau clir, penodol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer ymarferwyr ac aelodau'r teulu.

### Gweithio gyda phobl ifanc, rhieni a gofalwyr

Waeth beth fo'r math o gynllun, pan fydd wedi'i baratoi a'r partneriaid cyflawni wedi'u nodi, dylai'r gweithiwr cymdeithasol ddweud wrth y person ifanc a'i deulu beth sydd yn y cynllun, amlinellu rôl asiantaethau penodol a darparu person a enwir y gallant gysylltu ag ef os oes gan y person ifanc neu ei deulu gwestiynau neu broblemau.

Mae'n rhaid i gynlluniau gweithredu a chynlluniau gofal a chymorth fod ag amserlen glir a rhestru'r camau gweithredu a nodwyd ynghyd ag ymarferydd penodol sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu. Bydd gan yr ymarferydd arweiniol gyfrifoldeb cyffredinol am asesu'r cynllun a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni ar amser. Dylent adolygu'r cynllun gyda'r person ifanc i benderfynu beth sy'n gweithio'n dda a pha feysydd o'r cynllun sydd angen eu datblygu neu eu hymestyn.

## Perygl ar unwaith

Os yw'r ffurflen asesu'n datgelu bod y person ifanc mewn perygl ar unwaith o niwed, mae'n rhaid hysbysu'r gwasanaethau plant a'r heddlu. Gall yr asiantaethau hyn geisio Gorchymyn Amddiffyn Brys neu Bwerau Amddiffyn yr Heddlu i symud y person ifanc i fan diogel.

Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant (CASCADE), Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI), Prifysgol Caerdydd

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Nina Maxwell

CASCADE: Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol i Blant

Parc Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
Maindy Road
Caerdydd
CF24 4HQ